## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun 16eg Mawrth 2009 yn Siambr y Cyngor, Llangefni. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Cynorthwyol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); I Williams (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Sir Gwynedd |
| R Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Clerc am ystyriaeth.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 CYFLWYNIADAU

3.1 Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Safonau, roedd aelod annibynnol wedi codi'r mater nad oedd swyddogion ac Aelodau'n cyflwyno eu hunain yn ystod cyfarfodydd.

3.2 **PENDERFYNWYD gofyn i awduron yr adroddiadau gyflwyno eu hunain wrth gyflwyno eu hadroddiadau.**

4 COFNODION

4.1 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2008;

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion.**

4.3 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol, sydd heb eu cymeradwyo, er ddibenion gwybodaeth:

ii Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 2il Chwefror 2009;
iii Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2il Chwefror 2009;

iv Gweithgor Pencampwyr Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 13eg Ionawr 2009.

4.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

5 MATERION YN CODI

5.1 8.2 (vi) - sefydlwyd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn 2006 oherwydd y nifer uchel o farwolaethau oedd yn gysylltiedig gyda thân. Mae'r Prif Swyddog Tân yn ail sefydlu'r grŵp i asesu'r canlyniadau ers yr adroddiad a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Hydref.

5.2 10.5 – Pwyllgor Archwilio – cadarnhawyd na fydd y Pwyllgor Archwilio yn weithredol yn ystod y flwyddyn ddinesig nesaf. Bydd rhybudd o unrhyw benderfyniad (dim argymhellion i'r Awdurdod llawn) gan y Panel Gweithredol yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau o fewn amser penodol er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i drafod unrhyw benderfyniadau ymhellach.

5.3 Prosiect Cydnerth Cymru Gyfan (o gofnodion y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 2il Chwefror) - eglurodd y Prif Swyddog Tân mai prif fantais y prosiect oedd cysylltu gyda Chyfleuster Rheoli'r tri Gwasanaeth Tan ac Achub yng Nghymru. Mae gwaith ar fynd i alinio arferion gwaith fyddai'n manteisio os fyddai digwyddiad mawr yn digwydd.

5.4 Opsiynau cyllideb (o gofnodion y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 2il Chwefror) - hysbysodd y Trysorydd yr Aelodau fod cyfle wedi codi i aildrefnu peth dyled oedd wedi golygu gostyngiad yn anghenion cyllideb ar gyfer 2009/10. Roedd adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol ar 2il Chwefror yn darparu rhagor o fanylion.

5.5 Mae swydd cydlynydd y trydydd sector wedi ei llenwi ac fe nodwyd mai prif rôl y swydd fydd cysylltu gyda chynghorau'r sector gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ar y digwyddiadau a'r cyfarfodydd yr oedd ef a'r Is-gadeirydd wedi mynychu ers cyfarfod mis Rhagfyr.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ALLDRO DROS DRO 2008/09

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi alldro amcangyfrifed dros dro i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/2009.

7.2 Roedd gorwariant o £93,000 wedi digwydd ar orsaf dân Bwcle oherwydd cyflwr yr offer, gorfod gosod system daenellu a'r cynnydd yng nghostau deunydd adeiladu a llafur. Nodwyd fod rhaid gosod system daenellu yn yr holl orsafoedd oedd yn cael eu hailfodelu. Hysbyswyd aelodau fodd agoriad swyddogol gorsaf dân Bwcle wedi cael ei ohirio oherwydd nad oedd y Gweinidog, Dr Brian Gibbons AC ar gael.

7.3 Roedd y gorwariant ar gyfraith cyflogaeth yn ganlyniad i dribiwnlys diwydiannol cymhleth a materion cyflogaeth nad oedd posib delio gyda nhw'n fewnol; roedd angen cyfreithwyr allanol i amddiffyn yr Awdurdod yn iawn. Gofynnodd Aelod am fanylion y nifer o achosion ymdriniwyd â hwy'n allanol ac yn deall fod y wybodaeth ddarparwyr yn gyfyngedig i niferoedd a mathau o achosion oherwydd natur sensitif a chyfrinachol y materion.

7.4 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelodau am y tanwariant ar gydymffurfiad gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, cadarnhawyd fod y cynlluniau (gan gynnwys caniatâd cynllunio ac anghenion rheoliadau adeiladu) ar gyfer y 26 gorsaf wedi eu harwyddo. Roedd y broses dendr i wneud y gwaith yn cychwyn yn fuan gyda'r gwaith yn cael ei wneud mewn camau.

7.5 Bydd gwaith ar orsaf dân Llangefni yn cychwyn ym mis Gorffennaf; bydd gweithwyr yn cael eu hadleoli i orsaf dân Porthaethwy.

7.6 Nodwyd byddai'r swm 'gwirioneddol' wariwyd o'r gyllideb hysbysebu yn cynyddu cyn diwedd mis Mawrth oherwydd yr anfonebau oedd yn ddyledus i'w talu gan gynnwys un am gyfran Gogledd Cymru o'r broses recriwtio Cymru gyfan am ddiffoddwyr tân llawn amser.

7.7 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant amcangyfrifedig ar refeniw a'r safle mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf.**

8 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad i ddarparu Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2009/2010 ac i edrych am gymeradwyaeth ar gyfer y Datganiad o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

8.2 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd fod unrhyw arian sy'n cael ei fenthyca'n dod gan PWLB ond fod y Cynulliad yn rhoi cymeradwyaeth am y benthyca.

8.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r**

**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2009/2010; a**
**(iii) Pholisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw**

9 CYNLLUN LWFANS I AELODAU

9.1 Gofynnwyd i aelodau ystyried argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'u cymhwysiad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

9.2 Eglurodd y Clerc er nad yw adroddiad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cymhwyso'n gyfreithiol i'r Awdurdodau Tân ac Achub, mae angen yn ôl Rheoliadau 2007 gael ystyriaeth i'r materion a ragnodwyd gan y Panel i'r mathau ac uchafswm lefelau o lwfansau oedd yn daladwy gan eu hawdurdodau cyfansoddol.

9.3 Roedd Clercod y tri Awdurdod Tân ac Achub Cymreig yng Nghymru wedi cwrdd a thrafod yr adroddiad ac yn argymell yr adolygiad ar y cyd i'r awdurdodau unigol i gyflawni ymagwedd gyson Cymru gyfan.

9.4 Nodwyd gan Aelod fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu'r Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig o 2.45% fel nodwyd yn Atodiad A. Byddai hyn yn cael ei egluro a'r lwfans cymwys yn cael ei newid yn unol gyda hyn.

9.5 Nododd aelodau ar yr argymhellion fel a ganlyn:

(i) Cyflwyno lwfans gofal – teimlai'r Aelodau ei bod hi'n fater ddiamod ac efallai byddai diffyg cydraddoldeb os yw'r Aelodau'n gallu ei hawlio gan yr Awdurdod Tân ac Achub ond nid gan eu hawdurdod cyfansoddol. **Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r penderfyniad a gofyn i'r Clerc ddarparu adroddiad llawnach yn manylu trefniadau'r awdurdodau cyfansoddol a'u cyfyngiadau am hawlio'r lwfans.**

(ii) Lwfans cynnal - Teimlai'r Aelodau y dylai'r £28 fod ar gael drwy gydol cyfnod 24 awr ac nid yn cael ei gapio ar gyfer pob pryd. **Byddai'r**

**Clerc yn darparu rhagor o wybodaeth ar ymarferoldeb hawlio am gynhaliaeth gyda hyblygrwydd o fewn uchafswm y lwfans.**

(iii) Lwfans dros nos - **Cytunodd yr aelodau ar y cyfraddau canlynol ar gyfer 2009/10 fel y pennwyd yn yr Adroddiad Atodol o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol:**

| | |
|---|---|
| **Llundain** | **£ 124.00** |
| **Achosion eraill** | **£ 95.00** |

(iv) **Nododd Aelodau bydd y cyfraddau teithio yn parhau ar 40 ceiniog y filltir.**

(v) Mae lwfans aelodau cyfetholedig yn gymwys i Aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Roedd Aelodau yn teimlo fod gwaith y Pwyllgor Safonau yn leiafsymiol o gymharu gyda Phwyllgorau Safonau awdurdodau cyfansoddol. **Yn dilyn pleidlais, cytunwyd gan fwyafrif i beidio â chyflwyno lwfans aelodau cyfetholedig.**

(vi) **Cytunodd aelodau i ailenwi'r Cynllun yn Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau fel yr awgrymwyd gan y Panel Cydnabod Ariannol.**

10 DIWEDDARIAD AR REOLI PARHAD BUSNES

10.1 Cyflwynodd Bill Murphy yr adroddiad er mwyn diweddaru aelodau o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynglŷn y trefniadau sydd yn eu lle i adnabod a chyfeirio at risiau arwyddocaol i allu'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi'r safle presennol ynglŷn â rheolaeth y Gwasanaeth o barhad busnes.**

11 ADOLYGIAD O BEIRIANNAU ARBENNIG

11.1 Cyflwynodd Bill Murphy yr adroddiad i hysbysu Aelodau o'r cynnydd wnaed yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn 2006-07 i adolygu'r math, y trefniad ac effeithiolrwydd yr amrediad o Beiriannau Arbennig (y cerbydau sydd â phrif rôl o achub neu gefnogi mewn amgylchedd heb fod yn un tân) weithredwyd gan y Gwasanaeth.

11.2 Diolchodd Mr Murphy yr Aelodau am fynychu'r seminar ar dechnoleg car newydd gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ar 11eg Mawrth; roedd yn galonogol iawn i'r staff weld Aelodau'n cymryd diddordeb.

Llongyfarchodd y Cynghorydd M Ll Davies Mr Murphy a phawb oedd yn rhan o'r seminar.

11.3 Mewn ymateb i gwestiwn ar godi ffi am ddefnyddio'r uned achub arbennig, fe gadarnhaodd Mr Murphy fod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r RSPCA ac na fyddant yn codi ffi fel arfer, fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau lle bydd pobl yn gorfod talu.

11.4 Cadarnhawyd nad oedd offer arlwyo ar gael ar yr uned lles, fod bynnag, mae rheolwyr yn gallu defnyddio'r cardiau credyd rhag daladwy pan fydd angen lluniaeth yn ystod digwyddiadau.

11.5 Llongyfarchodd y Cynghorydd E c George y Gwasanaeth am ddarparu unedau gwahanol ac am ddarparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r offer.

Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod Mr Murphy yn ymddeol ar ddiwedd mis Ebrill a diolchodd iddo am ei wasanaeth 30+ i Wasanaeth Tân ac Achub gogledd Cymru. Talodd y Cadeirydd deyrnged i Mr Murphy a nodi fod meddwl uchel iawn ohono drwy'r DU a'i fod yn wybodus ac yn broffesiynol iawn bob amser.

12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Darparwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau o weithgareddau'r Pwyllgor Safonau ar gyfer 2008/09.

12.2 Amlygodd y Cynghorydd Glyn Williams y ffaith nad oedd cynrychioliad benywaidd ar y Pwyllgor ac y gallai hyn fod yn fater cod ymddygiad a disgyblaeth. Bydd aelodaeth yr holl bwyllgorau'n cael eu hadolygu yng Nghyfarfod Blynyddol Mehefin a bydd cyfle i'r Awdurdod weithredu cydbwysedd rhyw o'i aelodaeth ar y Pwyllgor.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau.**

13 YMGYSYLLTIAD GYDA BYRDDAU GWASANAETH LLEOL

13.1 Hysbyswyd Aelodau o ymgysylltiad y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn Byrddau Gwasanaeth Lleol ac i edrych am gefnogaeth wrth symud ymlaen gyda'r cydweithio yma.

13.2 Mewn ymateb i gwestiwn am Aelodau'n mynychu cyfarfodydd Byrddau Gwasanaeth Lleol, nodwyd mai ar lefel weithredol oedd yr aelodaeth yn

bennaf. Eglurodd y Clerc fod y Byrddau yn gweithio gyda'r Cynulliad er mwyn cadw aelodaeth mor isel ag oedd yn bosib ond sicrhau yr effaith mwyaf posib o fewn eu Hawdurdodau. Roedd Aelodau eraill yn teimlo fod y fformat presennol yn ddigonol. Cytunwyd byddai adroddiad cyfnodol yn cael ei ddarparu gan fanylu gwaith y 6 Bwrdd ac yn fwy penodol, unrhyw waith perthnasol i dân sydd ar fynd.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a byddai adroddiad manylach ar gael yng nghyfarfod mis Mehefin.**

14 CRONFEYDD YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB CYFUNOL

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Clerc a'r Trysorydd er mwyn hysbysu Aelodau o'r trafodaethau diweddar am Gronfeydd yr Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol yng nghyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 20fed Chwefror 2009.

14.2 Amlygwyd y mater i Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2008. Penderfynodd Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru'r pwerau statudol angenrheidiol i gadw cronfeydd, er y ffaith fod awdurdodau wedi cadw cronfeydd heb gymhwyster cyfrifo ers eu sefydliad yn 1998.

14.3 Hysbysodd y Trysorydd yr Aelodau fod y tri Awdurdod Tân ac Achub wedi cynhyrchu papur ar wahân ar y mater yn ôl cais gan swyddogion y Cynulliad. Croesawyd yr adroddiad gan CLlLC ac fe nodwyd fod diwygiad ar y Gorchymyn Cyfunol ar fynd ar hyn o bryd.

14.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

15 CYLCHGRAWN *ER GWYBODAETH*

15.1 Cyflwynwyd rhifyn diweddaraf o Er Gwybodaeth i'r aelodau. Nodwyd fod y cylchgrawn yn cael ei ddylunio a'i gynhyrchu yn fewnol ac yn cael ei argraffu'n allanol.

15.2 Croesawodd y Cynghorydd A M Jones y cyhoeddiad ac fe gymrodd y cyfle i ddiolch i drefnwyr Dawns Gwobrwyo'r Gymuned am drefnu digwyddiad ardderchog ar 27ain Chwefror.

15.3 **PENDERFYNWYD nodi *Er Gwybodaeth*.**